# ADRODDIADAU YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YNGHYLCH TEITHIO LLESOL

# PEN-Y-FAI



Chwefror 2025

## CYNNWYS

**1.0.CYFLWYNIAD** ..... 3
1.1 Disgrifiad o'r safle ..... 3
1.2 Amcanion y Cynllun ..... 3
**2.0 Crynodeb o'r ymgysylltu â'r cyhoedd** ..... 6
2.1 Dulliau o hyrwyddo ..... 6
2.2 Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio i'r gwaith wrth deithio o ddydd i ddydd? ..... 6
2.3 C2: Pa anawsterau sydd yna o ran cerdded neu feicio yn eich ardal chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol) ..... 8
2.4 A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded/beicio mwy i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr? ..... 10
**3.0 Casgliad** ..... 12
3.1 Canfyddiadau ..... 12
3.2 Beth sy'n digwydd nesaf? ..... 12
**Atodiadau** ..... 13
Atodiad A: Templed o'r arolwg ..... 13

Ffigwr 1: Cynigion Cynllun Cyffredinol ..... 5
Ffigwr 2: Canlyniadau o Gwestiwn 1 yr arolwg. ..... 7
Ffigwr 3: Siart gylch o'r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 1 yr arolwg. ..... 7
Ffigwr 4: Canlyniadau o Gwestiwn 2 yr arolwg. ..... 8
Ffigwr 4: Canlyniadau o Gwestiwn 2 yr arolwg. ..... 8
Ffigwr 5: Siart gylch o'r canlyniadau cyfun o gwestiwn 2 yr arolwg. ..... 9
Ffigwr 5: Siart gylch o'r canlyniadau cyfun o gwestiwn 2 yr ..... 9
Ffigwr 6: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg. ..... 10
Ffigwr 7: Siart gylch o'r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 1 yr arolwg. ..... 11

Tabl 1: Canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg ..... 6
Tabl 2: Canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg ..... 8
Tabl 3: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg ..... 10

# 1.0.CYFLWYNIAD

1.0.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliant yr ymgysylltu cymunedol yr ymgymerwyd ag ef yn ddiweddar fel rhan o gynlluniau teithio llesol o Ben-y-Fai i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr. Y cynllun arfaethedig fydd llwybr cerdded/beicio a rennir i'r de o gyffordd Pen-y-fai ar hyd yr A4063. Mae swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen y Bont ar Ogwr wedi adnabod cyfle ar gyfer gwell mynediad i mewn i ganol Pen-y-bont ar Ogwr drwy deithio cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni newid mewn dull teithio i breswylwyr wrth deithio o ddydd i ddydd.

1.0.2 Mae tri set data wedi'u creu o ddwy sesiwn ymgysylltu wahanol er mwyn gallu deall barn a safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch cynllun Cilgant Myrddin. Y ddwy sesiwn oedd:

- Ymgysylltu Cymunedol Wyneb yn Wyneb - 3ydd Gorffennaf 2024. Gwnaed hyn o 16:00 hyd at 18:00 er mwyn i breswylwyr alw i mewn i Ysgol Gynradd Pen-y-fai a thrafod y cynigion gyda swyddogion. Roedd hyn er mwyn sicrhau barn yr holl breswylwyr. Cwblhaodd 40 o fynychwyr arolwg byr cyn gadael y sesiwn.
- Arolwg Ar-lein - Yn dilyn cais gan Gynghorydd Lleol, cafodd yr un arolwg ei ryddhau ar-lein am bythefnos o 3ydd Medi 2024 hyd at 20fed Medi 2024, a chreodd hyn 140 o ymatebion pellach gan roi cyfle i rai nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiwn ar y 3ydd o Orffennaf i ddweud eu dweud.

1.0.3 Roedd y Cynghorydd lleol ar gyfer Pen-y-Fai yn bresennol yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb, ynghyd â chynghorydd arall a oedd yn siaradwr Cymraeg. Defnyddiwyd yr un arolwg ar gyfer y sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar lein, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyfuno yn yr adroddiad hwn ar gyfer eu dadansoddi, a gellir gweld yr arolwg hwn ar ddiwedd yr adroddiad yn Atodiad A.

## 1.1 DISGRIFIAD O'R SAFLE

1.1.1 Bydd y cynllun yn mabwysiadu dull tri cham er mwyn sefydlu cyswllt teithio llesol o Ben-y-fai i mewn i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr ar hyd Heol Ton-Du a Phen-y-bont ar Ogwr. Y prif amcan fydd gwella darpariaeth teithio llesol ac ehangu dewisiadau teithio cynaliadwy ar gyfer preswylwyr Pen-y-fai a'r cymunedau cyfagos.

- Mae Cam 1 yn canolbwyntio'n bennaf ar gyffordd A4063 Pen-y-Fai gyda signalau a'r prif feysydd gwaith o yn lleol er mwyn gwella mynediad i deithio llesol i gerddwyr.
- Bydd Cam 2 yn parhau o Gam 1 a bydd yn golygu adeiladu llwybr teithio llesol a rennir o'r gyffordd signal traffig i'r de i mewn i dref Pen-y-bont ar Ogwr.
- Bydd Cam 3 yn dilyn mewn blynyddoedd dilynol gan archwilio ardaloedd i'r gogledd o'r gyffordd.

1.1.2 Mae'r cynigion a ddangosir yn Ffigwr 1 yn tynnu sylw at yr opsiynau mae peirianwyr yn eu hystyried ar hyd y gwelliannau i'r coridor a gwelliannau croesi. Mae cyfranogwyr yn cael y cyfle i ddeall y broses o wneud penderfyniadau, gofyn cwestiynau ynghylch y dewisiadau a wnaed a darparu gwybodaeth leol ynghylch beth fyddai o fudd gyda'r cynllunio.

## 1.2 AMCANION Y CYNLLUN


1.2.1 Prif amcanion cynllun tri cham Pen-y-Fai yw:

- Darparu llwybr teithio iach sy'n cydymffurfio'n llawn gyda chanllawiau a safonau cyfredol, gan gynnwys rhai a nodwyd yn y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru)(2013), erbyn Mawrth 2026.

- Rhoi ailddyluniad y gyffordd gyda signalau i'r de o Ben-y-fai ar waith, gan ddarparu dull mwy diogel ac eglur o adael yr ardal gan ddefnyddio teithio llesol a chyflawni sgôr archwilio teithio llesol o dros 80%.
- Gwella cysylltedd rhwng ardaloedd Pen-y-Fai a chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynyddu, yn ei dro gyfran y dull teithio llesol o 12% (sefydlwyd gan yr arolwg ymgysylltiad â'r cyhoedd) i 20% erbyn diwedd 2027).

1.2.2 Drwy gyflawni prif amcanion y cynllun, bydd yr amcanion canlynol hefyd yn cael eu cwrdd:

- Gwella iechyd cyhoeddus a'r ystod eang o fuddiannau cysylltiedig oherwydd ffordd o fyw mwy gweithgar oddi mewn i ardal y cynllun a'r ardal gyfagos.
- Lleihau anghydraddoldeb drwy ddarparu mynediad ehangach at gyflogaeth, addysg, manwerthu a chyfleusterau ac amwynderau eraill.
- Lleihau tagfeydd a llygredd aer drwy newid dulliau teithio mesuradwy.
- Cyfrannu tuag at dargedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys targedau carbon Sero Net.
- Hwyluso cyfranogiad mewn Grwpiau Defnyddiwr Teithio Llesol a hyrwyddo'n gynyddol ddatblygiadau cynlluniau teithio i'r ysgol a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio, ynghyd â chynlluniau mynediad cymunedol.




**Ffigwr 1: Cynigion Cynllun Cyffredinol**

# 2.0 CRYNODEB O’R YMGYSYLLTU Â’R CYHOEDD

2.0.1 Mae Pennod 2 yn cynnwys canlyniadau’r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a’r arolwg ar-lein, gyda’r ddau yn cynnwys yr un wybodaeth, ac mae’r deilliannau wedyn wedi cael eu cyfuno ar gyfer eu dadansoddi. Mae’r arolwg yn cynnwys 3 chwestiwn a gellir gweld y canlyniadau ar gyfer pob cwestiwn o Adran 2.2. hyd 2.4. Cwblhaodd cyfanswm o 180 o gyfranogwyr yr arolwg (cyfuniad o rai ar-lein a wyneb yn wyneb fel ei gilydd), gyda 22% wedi cwblhau’r arolwg yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a 78% ar-lein.

2.0.2 Mae pob cwestiwn yn dechrau gyda thabl, sef y canlyniadau crai sydd wedi cael eu cyfrif gan swyddog. Yna, cyflwynir siart golofn mewn clwstwr er mwyn dod â’r tabl yn fyw a’i gwneud yn haws i’r darllenydd adnabod patrymau anomaleddau. Yn olaf, mae pob cwestiwn yn gorffen gyda siart gylch sy’n dangos canlyniadau a’r deilliannau cyfun y cwestiwn.

## 2.1 DULLIAU O HYRWYDDO

2.1.1 Roedd gwyliau’r haf yn dod yn nes ac roedd hyn yn arwain at gyfyngiadau o ran amser a phrinder argaeledd o fewn yr ysgol fel lleoliad. Fe wnaeth cynrychiolwyr o’r ardal, megis y cynghorydd lleol helpu i godi ymwybyddiaeth o’r sesiwn fyw ar-lein a chwblhawyd gwiriadau yn ogystal er mwyn gweld a oedd yna unrhyw grwpiau bregus/anodd eu cyrraedd yr oedd angen cysylltu â hwy. Cafodd postiad ei anfon allan ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi gwybod i breswylwyr Pen-y-Fai y gallant alw heibio’r ysgol unrhyw bryd rhwng 16:00 a 18:00 er mwyn holi cwestiynau i’r swyddogion a gweld y cynigion mewn manylder.

2.1.2 Gofynnodd y swyddogion yn garedig i ymwelwyr lenwi arolwg byr er mwyn canfod a oeddent yn gefnogol i’r cynllun ar ddiwedd y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol wedi hyn er mwyn hyrwyddo’r un arolwg ar-lein ym mis Medi 2024.

## 2.2 PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO I’R GWAITH WRTH DEITHIO O DDYDD I DDYDD?

2.2.1 Mae cwestiwn cyntaf yr arolwg yn rhoi syniad o ba gyfran o bobl fyddai’n dewis dulliau teithio cynaliadwy dros gerbydau modur wrth deithio o ddydd i ddydd gyda’r seilwaith presennol. Gellir gweld y canlyniadau ar gyfer Cwestiwn 1 yn Nhabl 1 isod.


| C1. Sut ydych chi’n teithio i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr? | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bws** | **Beic** | **Car (teithio eich hun)** | **Car (rhannu)** | **Beic modur** | **Cerdded** | **Cyfuniad o unrhyw un o’r uchod (aml ddull** | **Arall (rhowch fanylion)** |
| **Arolwg wyneb yn wyneb** | 0 | 1 | 4 | 2 | 0 | 3 | 29 | 8 |
| **Arolwg ar-lein** | 2 | 4 | 52 | 24 | 1 | 13 | 40 | 4 |
| **Canlyniadau cyfunol** | 2 | 5 | 56 | 26 | 1 | 16 | 69 | 12 |

**Tabl 1: Canlyniadau o gwestiwn 1 yr arolwg**


2.2.2 Mae’n werth nodi, ar gyfer y cwestiwn cyntaf, bod cyfranogwyr yn dewis mwy nag un enghraifft e.e. dewis ‘Cyfuniad i unrhyw un o’r uchod’ yn ogystal â ‘Car (teithio eich hun).’ Mae hyn yn darparu eglurhad ynghylch pam gafwyd 47 ymateb i’r cwestiwn hwn yn yr arolwg wyneb er mai ond 40 oedd yn bresennol.

2.2.3 Yn y digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb, mynegodd y preswylwyr bryderon ynghylch y diffyg dilyniant gyda’r seilwaith presennol, gyda nifer o ddefnyddwyr yn teimlo ei bod yn fwy

cyfleus a diogel i yrru i'w gwasanaethau lleol oherwydd nad oeddent yn gallu croesi dros yr A4063 heb fod ofn cyflymder traffig a diffyg mannau croesi. Nod y cynllun yw newid dulliau teithio o fewn y canlyniadau hyn, lle mae mwy o apêl o ran teithio llesol ar gyfer defnyddwyr abl a rhai llai abl.




**Ffigwr 2: Canlyniadau o Gwestiwn 1 yr arolwg.**




**Ffigwr 3: Siart gylch o'r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 1 yr arolwg.**

2.2.4 Fe wnaeth deilliannau'r ymgysylltiad â'r cyhoedd ddwyn i sylw'r swyddogion bod nifer o breswylwyr ar hyn o bryd yn teithio i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr gan ddefnyddio cyfuniad o

drafnidiaeth (aml ddull), gyda nifer yn mynegi y byddent yn cael eu hannog i gerdded mwy pe bai'r llwybr yn ddigonol. Dywedodd 30% o gyfranogwyr y byddent ond yn defnyddio teithio yn y car ar eu pen eu hunain er mwyn mynd i ganol y dref oherwydd nifer o ffactorau.

2.2.5 Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o pam nad yw'r gymuned lol o bosib yn ystyried dulliau cynaliadwy o deithio, mae cwestiwn 2 yn deall yr anawsterau mae preswylwyr yn ei brofi gyda'r llwybr hwn.

2.2.6 Cafodd trafnidiaeth gyhoeddus ei gyfeirio ato drwy gydol yr adran sylwadau ychwanegol, gyda phreswylwyr yn mynegi diddordeb i gael gwasanaeth bws drwy Ben-y-fai unwaith eto. Cafodd hyn ei grybwyll yn aml yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r adborth ar-lein.

## 2.3 C2: PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)


2.3.1 Roedd yr ail gwestiwn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o pam nad oedd preswylwyr o bosib yn ystyried teithio llesol fel eu dull dewisol o ran teithio ac i edrych ar y dewisiadau hynny a wnaed yng Nghwestiwn 1. Dewisodd nifer o breswylwyr fwy nag un opsiwn fel y cynghorwyd ar gyfer y cwestiwn hwn, lle maen nhw'n credu bod llawer o anawsterau gyda cherdded neu feicio ar hyd y llwybr presennol.

**C2. Pa anawsterau cyfredol sydd yna gyda cherdded/beicio i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

| | Rhesymau iechyd | Cyfleus | Croesfannau diogel | Prinder cyfleusterau teithio llesol | Cymryd gormod o amser | Arall (rhowch fanylion) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arolwg wyneb yn wyneb** | 3 | 6 | 31 | 25 | 7 | 0 |
| **Arolwg ar-lein** | 13 | 20 | 86 | 63 | 33 | 29 |
| **Canlyniadau cyfunol** | 16 | 26 | 117 | 88 | 40 | 29 |

**Tabl 2: Canlyniadau o gwestiwn 2 yr arolwg**


2.3.2 Mae Tabl 2 yn dystiolaeth mai'r pryder mawr i nifer o breswylwyr yw'r diffyg cyfleusterau teithio llesol a mannau croesi diogel ger cyffordd yr A4063. Roedd y ddau anhawster yma yn amlwg o'r arolwg wyneb yn wyneb a'r arolwg ar-lein a gellir dangos hyn yn Ffigwr 4 isod. Bydd y cynllun arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael gyda'r ddau bryder yma.




**Ffigwr 4: Canlyniadau o Gwestiwn 2 yr arolwg.**

2.3.3 Mae Ffigwr 5 yn tynnu sylw at y ffaith fod 37% o’r cyfranogwyr wedi datgan bod croesi’n ddiogel yn broblem gyda’r gyffordd hon, ac o ran mynd at y llwybr troed sy’n rhedeg yn gyfochrog gydag afon Ogwr. Eglurodd un preswyliwr ei bod yn arbennig o bwysig ein bod yn edrych ar yr ardal hon oherwydd plant, gyda cheir yn aml yn mynd y tu hwnt i’r cyfyngiad cyflymder.

2.3.4 Dywedodd 28% o’r cyfranogwyr hefyd nad yw'r seilwaith presennol o’r safon y dylai fod, a bod rhai’n profi anhawster yn arbennig wrth ddefnyddio coets gadair. Yn y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb, cafodd natur gul a chyflwr gwael y llwybr troed presennol i’r de ar hyd Heol Pen-y-Fai eu dwyn i sylw’r swyddog. Ar hyn o bryd dim ond rhyw 1.2 metr o led yw’r llwybr troed presennol fel arfer, ac mae’r lled hwnnw’n gostwng i gyn lleied â 1.0m lle mae’r ymylon wedi’u gorchuddio gan bridd o’r clawdd cyfagos. Mae hyn ymhell islaw’r 2.0m/1.8m a argymhellir ar gyfer llwybr troed newydd. Yn anffodus, ychydig o bosibilrwydd sydd i wneud y llwybr troed yn fwy llydan lle mae Heol Pen-y-Fai a Heol Pen-y-bont ar Ogwr yn cwrdd gyda Phrif Gyffordd Pen-y-Fai i’r gogledd a’r gogledd-orllewin. Mae lled cyfyngedig y llwybr troed presennol, llystyfiant a safle’r waliau cerrig yn atal unrhyw ehangu ar led y llwybr troed y tu hwnt i’r hyn ydyw ar hyn o bryd. Gan hynny, byddai sicrhau bod lled llawn y llwybr yn agored drwy glirio llystyfiant ac o bosib ailwynebu yn ddewis gwell ar gyfer y cam gweithredu ar gyfer Cam 1, gan gynyddu hygyrchedd a diogelwch y llwybr presennol. Yn ddibynnol ar yr ariannu a all fod ar gael, gall yr adran hon o’r llwybr gael ei harchwilio o dan Gam 3 er mwyn adnabod datrysiad posib.




**Ffigwr 6: Siart gylch o’r canlyniadau cyfun o gwestiwn 2 yr arolwg.**

2.3.5 Bydd y cynllun yn dilyn y safonau a sefydlwyd yn Neddf Teithio Llesol Cymru (20123), a bydd yn helpu i wasanaethu’r rhai gyda choetsys cadair, cadeiriau olwyn ac yn darparu cyfleoedd cyfartal. Eglurodd 5% o’r cyfranogwyr nad ydynt yn defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio oherwydd rhesymau iechyd, a gadawodd rhai sylwadau i ddweud y byddai o gymorth iddynt wrth ddefnyddio cadair olwyn pe bai’r arwynebeddau yn cael eu lledu a phalmant botymog yn cael ei wella.


## 2.4 A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG CHI I GERDDED/BEICIO MWY I GANOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR?

2.4.1 Pleidleisiodd 136 o'r 180 o gyfranogwyr (76%) yn yr arolwg y byddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded/ beicio mwy i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr fel y gellir gweld yn Nhabl 3. Fe waeth y sesiwn wyneb yn wyneb dynnu sylw at y gefnogaeth sydd gan lawer o breswylwyr Pen-y-Fai tuag at y cynllun.

| C3. A fydd y cynllun yn eich annog chi i gerdded/beicio i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn fwy aml? | | |
|---|---|---|
| | Ydw | Na |
| Arolwg wyneb yn wyneb | 38 | 2 |
| Arolwg ar-lein | 98 | 42 |
| Canlyniadau cyfunol | 136 | 44 |


**Tabl 3: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg**

2.4.2 Bydd sicrhau dull teithio gwahanol tuag at ddulliau cynaliadwy o deithio yn helpu i gyflawni amcanion i leihau teithio mewn car yn unigol. Eglurodd un preswyliwr y byddai hyn yn eu hannog i gerdded neu feicio mwy i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gan eu bod yn cerdded y ffordd hir o amgylch ar hyn o bryd oherwydd diffyg diogelwch o fewn yr amgylchiadau presennol. Bydd gwella cydlyniant a safonau'r llwybr ar hyd y llwybr fyddai'n ddewis naturiol yn gwella cyfleustra cerdded neu feicio i mewn i ganol y dref. Mae Ffigwr 6 yn dystiolaeth y bydd y cynllun yn annog mwy o bobl i ystyried cerdded neu feicio wrth deithio'n ddyddiol.




**Ffigwr 8: Canlyniadau o gwestiwn 3 yr arolwg.**

2.4.3 Pleidleisiodd 44 o'r 180 o gyfranogwyr (24%) na fyddai'r cynllun yn dylanwadu ar eu dewisiadau wrth deithio i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gyda rhai'n dweud y byddai'n "well gwario'r arian yn rhywle arall". O'r rhai nad oedd o blaid y cynllun, mynegodd llawer y byddai'n fwy buddiol i ailsefydlu llwybr bys drwy Ben-y-Fai. Mae'n werth nodi bod canran uwch o bobl wedi pleidleisio 'Na' ar yr arolwg ar-lein (42.9%) o'i gymharu gyda'r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb (5.3%), a chafodd y rhai a fu'n rhan o'r ymgysylltu wyneb yn wyneb gyfle i drafod y cynigion gyda swyddogion. Gellir gweld canran y bobl a fyddai'n cael eu hannog i gerdded neu feicio mwy o ganlyniad i'r cynllun yn Ffigwr 7 ar dudalen 11.




**Ffigwr 9: Siart gylch o'r canlyniadau cyfunol o gwestiwn 1 yr arolwg.**

2.4.4 Pwrpas yr ymgysylltu hwn â'r cyhoedd yw nid yn unig i roi gwybod i drigolion ynghylch cynlluniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'u diweddaru, ond hefyd i geisio sicrhau adborth gan rai a fydd yn defnyddio'r llwybr yn ddyddiol.

2.4.5 Un o'r prif bryderon perthnasol gyda'r cynllun oedd bod nifer fawr o gerddwyr o Ben-y-Fai, mae'n debyg yn cyrchu'r llwybr arfaethedig ar hyd Heol Pen-y-bont ar Ogwr drwy'r ffordd ar hyd Angleton Road, lle maent yn croesi i'r llwybr troed i'r dwyrain. Ni ddychmygwyd hyn yn wrth baratoi'r adroddiad dichonolrwydd a'r llunio cynnig. Mae'r cynnig wedi cael ei ddiwygio oddi ar hynny drwy symud man croesi i'r gogledd yn nes at gyffordd y ffordd, ac ehangu'r gwaith gwella arfaethedig i'r llwybr de gorllewinol i fyny hyd at gyffordd y ffordd.

2.4.6 Bydd angen i feicwyr sy'n ymuno gyda'r llwybr arfaethedig a rennir o Heol Pen-y-Fai yn gorfod gadael y briffordd wrth y groesfan twcan arfaethedig. Mynegodd aelod o'r cyhoedd bryder y gallai hyn fod yn anodd ar gyfer beicwyr amhrofiadol wrth iddynt ddynesu at olau gwyrdd mewn traffig oedd yn symud. Mae'r opsiwn o ehangu'r llwybr a rennir ymhellach ar hyd Heol Pen-y-Fai am 10-12m cyn y goleuadau, er mwyn rhoi "slipffordd" hirach wrth adael y briffordd, wedi cael ei edrych arno. Mae'r cyfleuster wedi cael ei ailddylunio fel y gall beicwyr ddod i ffwrdd yn gynt na'r llinell 'stopio' drwy gwrbiau isel wedi eu lledu.

2.4.7 Un o'r amcanion wrth hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy yw mynd i'r afael gyda materion byd-eang ynghylch allyriadau CO2, a chafodd hyn dderbyniad da gydag un ymwelydd a adawodd sylw ar-lein i ddweud y byddai "hyn yn eithriadol o fuddiol. Rydym yn deulu ifanc a byddem yn gwerthfawrogi man croesi diogel er mwyn cerdded i mewn i'r dref. Rydym angen lleihau allyriadau CO2 o deithiau car, a bydd hyn yn galluogi i fwy o deithiau lleol gael eu cyfnewid gyda thro cerdded byr i mewn i'r dref."

# 3.0 CASGLIAD

## 3.1 CANFYDDIADAU

3.1.1 Deilliant terfynol y sesiwn ymgysylltu oedd y byddai'r cynllun yn annog mwy o bobl i gerdded neu feicio i mewn i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

3.1.2 Fe wnaeth yr ymgysylltiad cyhoeddus dynnu sylw at y ffaith fod llawer yn dal i ddibynnu ar ddefnyddio'r car, gyda 30% yn defnyddio'r car ar eu pen eu hunain wrth deithio'n ddyddiol a 37% ymhellach yn defnyddio cyfuniad o ddulliau. Nod y cynllun yw sicrhau newid mewn dull o deithio tuag at deithio cynaliadwy drwy wneud y seilwaith yn ddiogel ac yn fwy deniadol i'r holl ddefnyddwyr.

3.1.3 Defnyddir y llwybr cerdded presennol ar gyfer amrywiaeth o ddulliau teithio, ond roedd cyfranogwyr yn aml yn tynnu sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig i deithio llesol, megis hygyrchedd, croesi'n ddiogel a chyflwr presennol y llwybrau troed.

3.1.4 Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at y ffaith y byddai 76% o bobl yn fwy tebygol o gerdded neu feicio mwy o ganlyniad i'r cynigion gwella teithio llesol, gan arwain at gymunedau mwy iach ac amgylchedd gwell.

## 3.2 BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

3.2.1 Casglwyd llawer o adborth positif o'r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r arolygon ar-lein. Roedd y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cynnig cyfle i'r mynychwyr ehangu eu safbwyntiau a'u barn ynghylch y cynnig, cyfle nad oedd yr arolygon yn seiliedig ar yr holiaduron yn ei gynnig. Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegir, yr hoffterau a ddatganwyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth adolygu, lle maent yn berthnasol, amcanion y cynllun, deilliannau'r cynllun, a lle mae'n ymarferol, maent wedi cyfrannu at ddyluniad gwell.

3.2.2 Mae'r Rhaglen Teithio Llesol yn brosiect parhaus dros sawl blwyddyn sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru ac yn ddibynnol ar broses ymgeisio am grant blynyddol. O ganlyniad, ni ellir darparu llwybrau sengl, yn arbennig rhai sydd yn hir iawn, gam wrth gam oherwydd yr ariannu. Nid yw sesiynau ymgysylltu o reidrwydd yn arwain at gynllun yn cael ei ariannu yn y flwyddyn y mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu. Mae'r budd o ddatblygu cynlluniau ac ymgysylltu gyda chymunedau yn eu cylch yn rhan hanfodol o broses gynllunio ymlaen y cyngor ac yn bodloni gofynion datblygu'r cynllun a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

3.2.3 Mae ceisiadau ar gyfer cynlluniau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol ac yn cael eu cymeradwyo ar y sail eu bod yn cael eu darparu yn ystod un flwyddyn ariannol; dyw hi ddim bob amser yn bosib i brosiectau sy'n mynd drwy'r broses dichonolrwydd, creu cynlluniau manwl a'u rhoi ar waith o fewn yr amserlenni a ganiateir. Y Rhaglen Cynllun Llesol yw'r ymrwymiad teithio strategol cyfredol mwyaf ac fe'i hystyrir yn hanfodol er mwyn annog 'newid dulliau teithio' o ddibynnu ar gerbydau modur preifat at ddulliau cynaliadwy megis cerdded a beicio.

3.2.4 Ar 10fed o Ragfyr 2024 bu i'r cabinet gymeradwyo adroddiad ar brosiectau trafnidiaeth strategol yn y fwrdeistref sirol, ac yn eu plith roedd llwybr teithio llesol Pen-y-Fai, sy'n cael ei gyflwyno mewn 3 cham, gyda'r cam cyntaf yn brif gynllun fyddai'n cael ei gyflwyno ar gyfer ariannu teithio llesol Llywodraeth Cymru 2025-2026.

3.2.5 Rhoddir diweddariadau rheolaidd i aelodau ynghylch y cynllun, tra'n croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ac adborth a allai fod gan breswylwyr.

3.2.6 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu'n ddwyieithog drwy wefan y cyngor.

# ATODIADAU

## ATODIAD A: TEMPLED O'R AROLWG

**Sut ydych chi'n teithio i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr fel arfer?**

| **Dull teithio** | **Ticiwch os gwelwch yn dda** |
|---|---|
| Bws | |
| Beic | |
| Car (teithio eich hun) | |
| Car (rhannu) | |
| Beic modur | |
| Cerdded | |
| Cyfuniad o unrhyw un o'r uchod (aml ddull) | |
| Arall (rhowch fanylion) | |

**Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded/beicio i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

| | |
|---|---|
| Rhesymau iechyd | |
| Cyfleus | |
| Croesfannau diogel | |
| Prinder cyfleusterau teithio llesol | |
| Cymryd gormod o amser | |
| Arall (rhowch fanylion) | |

**A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded/beicio mwy i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr?**

| **Ticiwch os gwelwch yn dda** | |
|---|---|
| Ydw | Nac ydw |
| | |